CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

DISGRIFIAD CYFRANOGIAD AR GYFER AELODAU BWRDD – UNIGOLION / DEFNYDDWYR GWASANAETH

PENODIAD:	Aelodau Bwrdd Unigolion/Defnyddywr Gwasanaeth, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
YN ATEBOL I'R:	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
YN GWEITHIO GYDAG:	Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Rhwydweithiau Trydydd Sector lleol, grwpiau unigol a gofalwyr, partneriaid statudol.
AD-DALU	Ar hyn o bryd sail wirfoddol gydag ad-daliad llawn o'r treuliau rhesymol
TYMOR PENODI	Dwy flynedd
YMRWYMIAD AMSER	Oddeutu 1 diwrnod y mis

Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Lleol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu arweinyddiaeth i wneud penderfyniadau, canllawiau, dylanwadu a chefnogi i sicrhau darpariaeth lwyddiannus y Gwasanaethau Iechyd a Gofal i Bobl yng Ngogledd Cymru.

Rôl yr Aelod Bwrdd Partneriaeth Unigolion/Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer unigolion/defnyddwyr gwasanaeth yn darparu llais ar gyfer pobl o bob oed sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr aelodau sy'n cael eu dewis i gynrychioli pobl yn cael eu recriwtio a'u penodi drwy lenwi ffurflen datgan diddordeb. Ar ôl y dyddiad cau, ar yr amod bod y manylion am yr unigolyn wedi'i lenwi'n briodol ac yn diwallu'r gofynion cyffredinol ar gyfer yr aelodaeth, bydd pobl yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod rhithiol dethol cyfoedion i drafod y rôl a'r gofynion a dewis dau aelod. Bydd y cynrychiolwyr yma hefyd yn cael eu hannog i fynychu fforymau ymgysylltu eraill hefyd.

Mae angen i'r broses ddethol ar gyfer unigolion/defnyddwyr gwasanaeth sy'n cymryd rhan ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru sicrhau fod y ddau sy'n cael eu dewis yn cynrychioli'r amrywiaeth o'r rhai sydd â phrofiad neu wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a / neu ofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

Bydd pobl yn derbyn y gefnogaeth briodol i fod yn aelodau gweithredol llawn o'r Bartneriaeth. Bydd papurau'n cael eu dosbarthu gyda digon o amser i ddeall a dehongli'r wybodaeth. Bydd dogfennau'n glir a hygyrch, gan osgoi'r defnydd o acronymau neu jargon. Bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i bobl mewn ffyrdd a fformatau sydd orau ar eu cyfer.

Sgiliau Personol

Bydd y meini prawf hyn yn cael eu hasesu yn ystod y broses ymgeisio a'r broses ddethol cyfoedion

MEINI PRAWF	**H= Hanfodol** **D=Dymunol**	**Datganiad Diddordeb / Proses Recriwtio**
Defnyddiwr Gwasanaeth / Unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir gan Ogledd Cymru ar hyn o bryd	**H**	Datganiad Diddordeb
Parodrwydd i sefydlu cysylltiadau cryf gyda grwpiau /fforymau lleol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol	**H**	Datganiad Diddordeb /Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu diwallu ymrwymiad amser rheolaidd i gyfranogi at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	**H**	Datganiad Diddordeb
Gallu a sgiliau i hyrwyddo safbwyntiau unigolion/defnyddwyr gwasanaeth i adlewyrchu eu safbwyntiau. Dealltwriaeth o "Gynrychiolaeth"	**H**	Datganiad Diddordeb /Proses Ddethol Cyfoedion
Y gallu i weithio ar ben eich hun a/ neu fel rhan o dîm mewn partneriaeth	**H**	Datganiad Diddordeb
Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth, polisïau ac arferion iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol a lleol	**H**	Datganiad Diddordeb /Proses Ddethol Cyfoedion
Sgiliau cyfathrebu da ar bob lefel a thrwy amrywiaeth o gyfryngau	**H**	Datganiad Diddordeb /Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu bod yn bendant pan fo'r angen	**H**	Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu herio, mewn dull adeiladol	**H**	Proses Ddethol Cyfoedion
Yn hyblyg ac yn gallu addasu	**H**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion
Sgiliau TG neu barodrwydd i ddysgu	**D**	Datganiad Diddordeb
Gallu siarad Cymraeg	**D**	Datganiad Diddordeb /Proses Ddethol Cyfoedion